| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **30 MEHEFIN 2015** |
| TEITL: | **CYFRIFON TERFYNOL 2014/15 – ALLDRO REFENIW** |
| PWRPAS: | **EGLURO A CHRAFFU’R SEFYLLFA ARIANNOL TERFYNOL AM 2014/15** |
| GWEITHREDIAD: | **Derbyn yr wybodaeth, ystyried unrhyw risgiau sy’n deillio o’r gwir wariant ac incwm yn erbyn cyllideb 2014/15, a chraffu penderfyniadau’r Cabinet yng nghyswllt rheoli cyllidebau’r Cyngor a’i Adrannau.** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS** |

---

**1.** Cyflwynwyd adroddiad adolygiad cyllideb y trydydd chwarter i’r Pwyllgor Archwilio ar 17 Chwefror 2015, a bu ystyriaeth briodol i sawl mater yno.

**2.** Mae’r adroddiad gerbron heddiw, sef yr adolygiad cyllideb “alldro”, yn egluro sefyllfa terfynol 2014/15 ac yn dangos y darlun fesul adran. Y ffigyrau yma fydd yn sail i’r datganiadau statudol cyflwynir i gyfarfod 16 Gorffennaf o’r Pwyllgor Archwilio.

**3.** Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio wedi gofyn i ni gyflwyno’r adroddiad Cabinet atodol i’r Pwyllgor Archwilio, i’w graffu ynghyd â phenderfyniadau perthnasol cyfarfod 2 Mehefin o’r Cabinet (sydd hefyd yn atodol).

**4.** Gofynnir i’r Pwyllgor Archwilio nodi’r sefyllfa a’r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau’r Cyngor a’i adrannau, ystyried penderfyniadau drafft y Cabinet, a sylwebu fel bo angen.